

Bwletin Awdurdod S4C Tachwedd 2000

Elusen S4C

Adroddwyd bod cyfarfod wedi'i gynnal gyda'r NSPCC a *Heno* er mwyn adolygu'r trefniadau a wnaethpwyd eleni ar gyfer Apêl S4C. Cytunwyd y dylid, yn y dyfodol, dechrau ar y broses o hysbysebu a dewis elusen ynghynt. Byddai hyn yn caniatáu fwy o amser i'r elusen a ddewiswyd roi rhaglen o weithgareddau ar gyfer y flwyddyn at ei gilydd. Fel canlyniad byddai hysbysebion am gynigion gan elusennau ar gyfer Apêl 2001 yn ymddangos o fewn pythefnos gyda'r bwriad o ddewis elusen yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd.

Llongyfarchiadau

Mynegwyd llongyfarchiadau gwresog iawn i'r Aelod, Mrs Enid Rowlands, ar gael ei phenodi fel Cadeirydd y Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant. Diolchodd Ms Rowlands i'r Aelodau am eu sylwadau caredig a soniodd ei bod yn edrych ymlaen at y sialens oedd o'i blaen. Yn ogystal, dywedodd na fyddai o hyn allan yn mynegi unrhyw farn yn ystod trafodaethau'r Awdurdod ar faterion yn ymwneud â'r Coleg Digidol.

Diolchiadau

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y ffaith y byddai cyfnod Mr Peter Davies a Mrs Janice Rowlands fel Aelodau o Fwrdd S4C yn dod i ben ym Mawrth 2001. Adroddodd bod yr Adran Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon bellach yn rhoi pwyslais mawr iawn ar y broses o hysbysebu ar gyfer y fath benodiadau ac felly byddai hysbysebion ar gyfer y ddwy swydd yn ymddangos yn y wasg yn ystod yr wythnosau nesaf. Er y byddai yna gyfle i ddymuno'n dda i Mr Davies a Mrs Rowlands ar ddiwedd eu cyfnod gyda'r Awdurdod, dymunodd y Cadeirydd manteisio ar y cyfle hwn i ddiolch yn fawr iawn i'r ddau ohonynt am eu hymroddiad llwyr i S4C dros y pedair blynedd a hanner diwethaf.

Cyfarfodydd Gwleidyddol

Adroddodd y Cadeirydd ei bod hi a'r Prif Weithredwr, fel rhan o'r rhaglen o gyfarfodydd yn y cynadleddau gwleidyddol, wedi cyfarfod gyda chadeiryddion rhanbarthol Cymreig y Blaid Geidwadol yn ogystal â nifer o ddarpar ymgeiswyr Seneddol yn ystod eu cynhadledd yn Bournemouth. Soniwyd y byddai cyfarfod yn cael ei drefnu ar gyfer aelodau'r Democratiaid Rhyddfrydol.

Cadeirydd y Comisiwn Safonau Darlledu

Cyfeiriwyd at y ffaith bod yr Arglwydd Holme, Cadeirydd y Comisiwn Safonau Darlledu, wedi ymddiswyddo yn sgil y sylw yn y wasg ynglyn a'i fywyd preifat.

NTL

Adroddodd y Prif Weithredwr ar gyfarfod a gynhaliwyd gyda NTL pan, ymhlith materion eraill, godwyd rhesymau pam y dylent gario S4C2 ar eu gwasanaethau cebl yng Nghymru a pham y dylent roi lle amlwg i S4C ar yr EPG. Roedd y trafodaethau gyda NTL wedi bod yn rhai adeiladol ond heb gyrraedd at unrhyw benderfyniadau pendant hyd yn hyn.

Côd Ymddygiad Uned Cyllid Rhaglenni S4C

Ystyriodd yr Awdurdod y Côd Ymddygiad a argymhellwyd i'w fabwysiadu ar gyfer aelodau staff yn yr Uned Gyllid Rhaglenni. Bwriad y Côd oedd i sefydlu trefn i ddelio â sefyllfaoedd lle'r oedd staff mewn swyddi sensitif yn yr Uned yn ceisio am, neu'n cael cynnig, swyddi yn y sector annibynnol. Nodwyd bod y Côd a gyflwynwyd gerbron yr Awdurdod yn ganlyniad i broses o negydu gyda staff. Cytunodd yr Awdurdod i gymeradwyo'r Côd.

Adroddiad ar Raglenni S4C

Rhoddwyd sylw penodol i *Pen Tennyn*. Teimlwyd ei fod yn drueni bod S4C wedi gorfod symud y gyfres hon o'r slot gwreiddiol o 8.00 pm a'i lleoli am 9.00 pm h.y. ar ôl y 'watershed'. Roedd mewn ymateb i sawl cwyn a dderbyniwyd yn sgil rhaglen gyntaf y gyfres. Byddai'r sefyllfa hon yn destun pwnc trafod ar gyfer y dyfodol. Tra roedd pobl yn dangos awydd i S4C wthio'r ffiniau roedd yn ymddangos nad oeddynt yn ei hoffi pan roedd S4C yn gweithredu ar y dymuniad hwnnw. Teimlwyd bod angen i S4C ddarlledu ei rhaglenni gorau rhwng 8.00 pm i 9.00 pm sef y cyfnod mwyaf cystadleuol. Er hynny, codwyd y cwestiwn o beth oedd yr 'oriau brig' bellach, yn enwedig gan fod y BBC nawr wedi ehangu'r diffiniad i 10.00 pm.

Adolygiad o Gynllun Corfforaethol 2000

Ystyriwyd perfformiad S4C yn erbyn y targedau yn ei chynllun corfforaethol ar gyfer 2000. Nodwyd bod y targedau i raddau helaeth yn cael eu cwrdd neu eu curo. Er hynny, roedd y ffigurau gwyllo yn y Gogledd yn dal i beri pryder. Trafodwyd hyn ymhellach yn ystod y cyflwyniad ar y gwasanaeth rhaglenni.

Nodwyd hefyd, er bod S4C yn cyfarfod â'r gofynion presennol ar gyfer gwasanaeth llun ddisgrifio, roedd yna broblemau technegol - nid lleiaf fod S4C yn arbrofi ar gyfer gwasanaeth nad oedd neb yng Nghymru yn gallu derbyn! Roedd yr Adran dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon yn cynnal arolwg ar y mater hwn ac roedd S4C wedi cyfleu eu sylwadau ynglyn â'r sefyllfa atynt.

Cyflwyniad ar y Gwasanaeth Rhaglenni ar gyfer y dyfodol

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Rhaglenni gyflwyniad i'r Awdurdod a wnaeth egluro ei feddylfryd ar hyn o bryd ar gyfer gwasanaeth rhaglenni ar gyfer y rownd gomisiynu nesaf a thu hwnt o ystyried y byd newydd digidol yr oedd S4C bellach yn ran ohono. Yn gyffredinol, teimlodd bod angen i S4C fentro ac ailddiffinio ei hunan adeiladu ar gyfer y dyfodol, tra'n cofio ei chyfrifoldebau at ei chynulleidfaoedd ffyddlon. Roedd yn dechrau dod yn amlwg mai dim ond rhaglenni gwir arbennig fyddai'n ennill canran uchel o wylwyr yn y byd aml-sianel. Roedd hefyd yn glir y byddai'r mwyafrif o Gymry Cymraeg, o fewn y blynyddoedd nesaf, yn gwylwyr digidol ac roedd yn hyn yn codi'r cwestiwn o gryfhau'r rhaglenni digidol. Diolchodd yr Awdurdod i'r Cyfarwyddwr am rannu ei syniadau presennol gyda nhw a chydabuwyd yr oedd angen iddo drafod y rhain ymhellach gyda'r comisiynwyr ac eraill. Gwahodwyd iddo ef a'i staff fod mor ochrol yn eu hystyriaethau â phosibl ac i fod mor eang ag oedd yn bosib yn yr opsiynau i'w rhoi ger bron yr Awdurdod. Cytunwyd y byddai'r Cyfarwyddwr Rhaglenni yn adrodd yn ôl i'r Awdurdod yn y cyfarfod nesaf ar sut yr oedd y gwaith yn datblygu.

Cyllideb 2001

Cyflwynwyd i'r Awdurdod y gyllideb roedd y Tîm Rheoli yn ei argymhell ar gyfer y flwyddyn 2001 a thu hwnt. Rhoddwyd crynodeb o'r hyn oedd wedi digwydd yn y blynyddoedd cynt a wnaeth arwain at y sefyllfa gyllidebol bresennol. Wrth esbonio sut aethpwyd ati i lunio'r gyllideb ar gyfer 2001, tynnwyd sylw yn benodol at y ffaith mai'r flaenoriaeth unwaith eto oedd ceisio diogelu'r gyllideb rhaglenni tra'n dod o hyd i arbedion mewn manau eraill. Roedd yn amlwg bod angen lleddfu'r sefyllfa gan fod y trefniant presennol o godiad yn ôl y Mynegrif Prisiau Arwerthol ddim yn cwrdd â chwyddiant yn y diwydiant darlledu. Roedd ymrwymiad hefyd at gynnal gweithgareddau masnachol o ystyried y cyfraniad sylweddol a ddisgwyliwyd o'r ffynhonnell hon yn y tymor canol a hir.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddogion am eu hatgoffa o'r darlun mawr a'r cefndir oedd wedi arwain at y sefyllfa bresennol. Fe fyddai'n fater o bwys i gadw llygad craff ar y sefyllfa ariannol yn y blynyddoedd i ddod. Roedd hefyd angen dal ati ar yr ochr wleidyddol i geisio ennill ariannu uwch oddi wrth y Llywodraeth. Cytunodd yr Awdurdod y dylid derbyn argymhellion y Tîm Rheoli ac y dylid cymeradwyo'r gyllideb ar gyfer 2001 a thu hwnt.

Materion Eraill

Yn ogystal trafodwyd neu nodwyd adroddiadau ar y canlynol:

Adroddiad Ariannol

Cynllun Busnes S4C Masnachol ar gyfer y Deng Mlynedd Nesaf

Adroddiad y Prif Weithredwr – Materion er gwybodaeth

Adroddiad Cwynion

Adroddiad a Chofnodion cyfarfod y Grwp Cydymffurfiaeth – 10 Hydref 2000

Adroddiad Ymchwil.

Cyfarfodydd Nesaf yr Awdurdod

Cynhelir cyfarfod cyhoeddus agored nesaf yr Awdurdod yng Nghanolfan y Celfyddydau, Neuadd Llanofar, Heol Romilly, Treganna, Caerdydd, am 7.00 p.m., nos Iau, 23 Tachwedd 2000. Bydd yr Awdurdod yn cynnal ei gyfarfod busnes arferol y diwrnod canlynol, hefyd yng Nghaerdydd.